

# A OES GENNYCH CHI'R HYN SYDD EI EISIAU?



Cysylltu Bywydau -  
Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru  
Shared Lives -  
Adult Placement in West Wales

A allech chi roi cymorth i oedolyn agored i  
niwed yn eich cartref - **ydych chi'n**

## Rhywun Hael ag Ystafell ar Gael?



**LLEOLI OEDOLION YNG NGORLLEWIN CYMRU**  
Sir Gaerfyrddin • Sir Benfro • Ceredigion

# HYRWYDDO ANNIBYNNIAETH A H

## PWY YDYN NI?

Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gaerfyrddin ydyn ni ac rydyn ni'n darparu gwasanaethau Lleoli Oedolion yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Rydyn ni'n rhoi gwasanaethau cymunedol i bobl agored i niwed. Caiff y gwasanaethau hyn eu cynllunio'n bwrpasol ar gyfer yr unigolion sydd dan sylw, ac fe'u darperir yng nghartrefi Gofalwyr sydd wedi eu cymeradwyo.

Yr hyn sy'n bwysig am Leoli Oedolion yw bod pobl yn cael dewisiadau a rheolaeth dros eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu cael. Golyga hyn y gofynnir i bobl, cyn eu bod yn mynd i aros gyda Gofalwyr, pa fath o gymorth sydd ei angen arnynt, beth sydd ei angen arnynt, a beth maent eisiau ei wneud. Yn yr un modd, mae'r Gofalwyr Lleoli Oedolion hefyd yn cael dewis pwy maen nhw'n eu cefnogi, pryd a sut. Mae pob lleoliad yn cael ei seilio ar gytundeb rhwng y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth a'r Gofalwr. Gall lleoliadau bara am gyfnod hir neu gyfnod byr; gall unigolyn fyw gyda Gofalwr yn barhaol neu ddod i aros am ddwy neu dair noson ar y tro.



## PWY YDYCH CHI?

Os ydych chi'n unigolyn hyblyg, blaengar a pherson-ganolog; yn gallu helpu rhywun i fyw'r bywyd y mae'n ei ddewis; yn gallu hybu annibyniaeth a dewisiadau; yn gwerthfawrogi rhywun fel y mae, ac yn gallu gwneud y cyfan hyn o'ch cartref chi eich hun, fe allech fod yn Ofalwr.

WORKING IN  
PARTNERSHIP



# HELFU POBL I FYW EU BYWYDAU

Rydyn ni'n recriwtio pobl o bob cefndir, yn hen, yn ifanc, yn briod, yn sengl, wedi ymddeol ac o unrhyw gefndir diwylliannol neu ethnig. **Byddwch dros 18 oed**, ond nid oes rhaid ichi gael unrhyw gymwysterau ffurfiol.

## Ydych chi'n Rhywun Hael ag Ystafell ar Gael?

Mae'n rhaid bod gan Ofalwyr cymeradwy yr amser i helpu person agored i niwed a digon o le ar gyfer y person hwnnw pan yw'n dod i aros.

Hwyrach eich bod yn **'rhywun hael ag ystafell ar gael'** ond rhaid hefyd ichi ymrwymo'n ddiffuant i gefnogi oedolyn agored i niwed a fydd yn aelod gwerthfawr a gweithredol o fywyd y teulu a'r gymuned.



**Gallech CHI wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd rhywun.**



Mae oedolion agored i niwed yn haeddu cael gwasanaethau o safon sy'n cyfateb i'w hanghenion. Rydyn ni am i chi ein helpu i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Gallwn gynnig hyfforddiant gwych ichi a chymorth parhaus i'ch helpu i ddarparu lleoliadau arloesol a hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ogystal, mae taliadau hael o £350 yr wythnos neu £50 y noson yn cael eu rhoi i Ofalwyr ym maes Lleoli Oedolion am eu gwasanaeth.

# A oes gennych ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am gefnogi oedolyn agored i niwed yn eich cartref eich hun?

Mae'n bosibl eich bod yn credu bod gennych rywbeth i'w gynnig?

Efallai eich bod yn gwybod am bobl eraill a allai fod â diddordeb?

Os ydych yn Rhywun Hael ag Ystafell ar Gael, ac os oes diddordeb gennych mewn cael rhagor o wybodaeth am Leoli Oedolion,

## Rydyn ni eisiau siarad â chi

Cysylltwch â'r Tîm Lleoli Oedolion drwy ffonio

# 01267 224200

## a gofynnwch am **Angela neu Steve.**

Sir Benfro • Sir Gaerfyrddin • Ceredigion

### **GWASANAETHAU LLEOLI OEDOLION GORLLEWIN CYMRU**

Tŷ Llwyn Pisgwydd, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SW

Ffôn **01267 224200**

Ffacs **01267 224288**

GwasanaethLleoliadauiOedolion@sirgar.gov.uk



**Cysylltu Bywydau -**  
Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru  
**Shared Lives -**  
Adult Placement in West Wales

cefnogipobl  
supportingpeople



supporting independence  
cefnogi annibyniaeth